PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

GWRANDAWIAD CADARNHAU - 28 GORFFENNAF 2016

PENODI DIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD ARFAETHEDIG GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 10, Atodlen 1 ("yr Atodlen") Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Penodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Cynhaliodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wrandawiad cadarnhau yn unol â Pharagraffau 10 ac 11 yr Atodlen, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy ddydd Iau, 28 Gorffennaf 2016.

Ystyriodd y Panel lythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn enwebu Eleanor Ann Griffith fel Dirprwy Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Yn unol â Pharagraff 11 yr Atodlen, roedd yr ymgeisydd arfaethedig yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r penodiad.

Ystyriodd y Panel yr ymgeisydd arfaethedig a'r meini prawf a ddefnyddiodd y Comisiynydd wrth benderfynu ar ei enwebiad ar gyfer y swydd hon.

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb, cynhaliodd y Panel sesiwn gaeedig i drafod a phenderfynu ar ei argymhelliad.

ARGYMHELLIAD:

Peidio â phenodi Eleanor Ann Griffith yn Ddirprwy Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.